

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHALIWDYD A'R NOS LUN 28AIN O CHWFROR 2022 TRWY "MICROSOFT TEAMS" AM 7.30 O'R GLOCH.

1. PRESENNOL:

Y Cyngorwyr Elfed Williams (Cadeirydd), Philip Williams, Rhian Evans, Arwel Davies, Geraint Jones, Cyngorydd Sir Ddinbych Joe Welch ynghyd a'r Clerc.

2. YMDDIHEURIADAU:

Y Cyngorwyr Ceri Davies, Falmai Evans, Hywel Davies a Bari Evans.

3. DDATGAN DIDDORDEB:

Dim yn codi.

4. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 31ain o Ionawr 2022 yn gywir gan y Cyngorwyr yn bresennol.

5. MATERION YN CODI O'R COFNODION SYDD DDIM AR YR AGENDA.

A: Dim adroddiadau gan Swyddogion Cyngor Sir Ddinbych ers cyfarfod blaenorol sydd yn edrych i mewn ar waith answyddogol sydd wedi cychwyn ar y ddau safle presennol yn ddiweddar:-

1: Safle Cae'r Mynydd yn Saron.

2. Cyn Eglwys Prion ym Mhant Pastynog.

Mae'r Swyddogion Cyngor Sir Ddinbych yn dal i ddisgwyl manylion ychwanegol gan y perchnogion y safleoedd er mwyn i'r ceisiadau cynllunio fod yn gyflawn.

B. Materion ffyrdd Cyngor Sir Ddinbych i'r canlynol:-

1: Pafin troed cyhoeddus wrth Faes Hwylfa yn Llanrhaeadr eisiau ei lanhau – Wedi ei chwblhau erbyn hyn.

2. Ffordd o'r Llanrhaeadr-yng-nghinmeirch tuag at Graig Lwyd, Prion eisiau sylw – dal i ddisgwyl adroddiad Cyngor Sir Ddinbych.

3. Ffordd o'r Groesffordd, Prion at Gyffordd Ysgol Pant Pastynog eisiau sylw - dal i ddisgwyl adroddiad Cyngor Sir Ddinbych.

6. ARWYDDION GYMUNED LLANRHAEADR.

A. Derbyniwyd adroddiad Ben Wilcox-Jones, Prif Beiriannydd Diogelwch y Ffordd a Thrafnidiaeth Gynaliadwy Cyngor Sir Ddinbych, fod yr arwydd cyflymdra sydd yn fflachio os mae'r cerbyd yn mynd dros y cyflymdra ym Mhentre' Llanrhaeadr ar y rhestr aros.

B. Cytunodd y Cyngorydd Arwel Davies i gael prisiau adnewyddu'r hysbysfyrddau ym Mhrion a Saron erbyn cyfarfod nesaf y Cyngor.

C. Mi fydd arwyddion "Pentre' Llanrhaeadr" wedi cael eu cynhyrchu a gosod gan Gyngor Sir Ddinbych erbyn cyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned.

7. HYSBYSFWRDD LLANRHAEADR.

Derbyniwyd adroddiad presennol y Cadeirydd ei fod mewn cyswllt gyda Lorna Jenner ynglŷn â chomisiynu'r "Panel Wybodaeth" wrth y lloches bws ar draws y ffordd i'r King's Head yn Llanrhaeadr ac yn disgwyl fwy o wybodaeth cyn adroddi yn ôl i'r cyfarfod nesaf y Cyngor.

8. ETHOLIAD CYNGHORAU CYMUNEDOL LLEOL 05.05.2022.

E-bostiodd y Clerc i'r aelodau'r amserlen 'at becyn etholiad "Cyngorau Cymunedol Lleol 5ed o Fai 2022".

9. GWELYAU BLODAU YN Y GYMUNED.

Derbyniwyd a chytunwyd yr aelodau i'r Cadeirydd rhoi'r canlynol ar safle'r "Facebook" ynghyn ar welyau bodau yn y gymuned:-

"Gan alw ar yr holl anthoffiliaid / garddwr brwd, mae Cyngor Cymuned Llanrhaeadr yn cynnig grantiau o hyd at £200 i grwpiau sy'n dod at ei gilydd i wella eu hardal drwy blannu blodau. Gall fod yn grŵp preswyl anffurfiol neu'n grŵp ffurfiol sydd wedi'i leoli o fewn ardal Cyngor Cymuned Llanrhaeadr. Gall y prosiect fod ar gyfer ardal o bentref, lleoliad gwledig neu bentref cyfan naill ai yn Llanrhaeadr, Prion, Saron neu Beniel. Mae angen i chi egluro'n gryno sut bydd eich grŵp yn gwario'r arian ar blannu blodau a sut y bydd hyn o fudd i'ch ardal a'r amgylchedd. Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am y grant yw 25ain o Fawrth 2022. Dylech anfon eich cais at Ysgrifennydd y Cyngor [ifandavies18@yahoo.co.uk](mailto:ifandavies18@yahoo.co.uk)".

10. GOEDEN NADOLIG YN GYNNWYS GOLEUADAU NADOLIG YN Y GYMUNED.

Cytunodd y Cyngorydd Geraint Jones trefnu cyfarfod safle gyda Mr Craig Wilson, Peiriannydd Goleuo Stryd, Gyngor Sir Ddinbych i gytuno ar y safle cyswllt trydan i'r Goeden Nadolig ym Mhentre' Llanrhaeadr.

11. LWFANSAU CYNGHORWYR 2021/22.

Derbyniwyd yr aelodau ffurflen cais am "Lwfansau Cyngorwyr 2021/22" oddi wrth y Clerc.

12. MATERION CYLLID.

A. Datganiad Banc £15,842.00.

B. Rhoddwyd awdurdod i'r Clerc thalu'r dal aelodaeth 2022/23 Un Llais Cymru £168.00.

13. CEISIADAU BLYNYDDOL AM GEFNOGAETH ARIAN.

A. Ysgol Pant Pastynog am rodd o £1,000 tuag fws mini newydd. Penderfynwyd yr aelodau nad oedd Ysgol Pant Pastynog wedi gwario'r rhodd y Cyngor Cymuned am £1,000 yn ystod y flwyddyn ariannol 2020/21 ynghyd a chlustnodi £500 o'r flwyddyn ariannol bresennol 2021/22 fynd tuag at gost y fws mini newydd.

B. Hosbis a Chanolfan Gofal St. Kentigern, Llanelwy - Rhoddwyd £200.

C. Elusen Ambiwlans Awyr Cymru – Rhoddwyd £200.

D. Eglwys Saint Dyfnog tuag at gostau gofal a chadw mynwentau Eglwysi Llanrhaeadr a Phrion - Rhoddwyd £800.

E. Groes Goch Brydeinig Apêl Wcráin - Rhoddwyd £300.

14. CEISIADAU CYNLLUNIO.

A. Cais 23/2022/0094 - Dangos 2 arwyddion mewn cysylltiad o fusnes fferm ar dir i'r de o Llwyn Banc, Llanrhaeadr - yr unig sylwad ar y cais oedd sicrhau fod peiriannau uchel fferm ddim yn cuddio'r arwyddion.

B. Cais 23/2022/0093 – Ffurio mynediad a thrac amaethyddol gyda gwaith cysylltiedig yn Llwyn Banc, Llanrhaeadr – dim gwrthwynebiad.

15. GOHEBIAETH.

Derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth Swyddog Mynediad Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy Cyhoeddus Cyngor Sir Ddinbych for rhan o'r Llwybr Cyhoeddus 6 yn Crwcd, Llanrhaeadr wedi newid ychydig. Nid oed yna unrhyw wrthwynebiad o'r Cyngor Cymuned.

16. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Derbyniwyd y rhestr ffyrdd canlynol sydd eisiau sylw:-

A: Draen wedi tagu wrth yr Hen Ysgol yn Llanrhaeadr.

B. Ffos wrth y King's Head yn Llanrhaeadr eisiau ei lanhau ar geg y bont.

C. Lon yn ddrwg iawn rhwng Prion a Llys.

D. Lon yn ddrwg rhwng Pen y Ffridd a Drws y Buddel yn Saron.

E. Safle'r cyngor ym Mryn Glas yn gywilydd i'w weld. Amryw yn cwyno am y lle.

F. Angen atgyweirio'r hysbyswrdd wrth Gapel Saron cyn i'r gwydr syrthio allan ac i rywun gael niwed wrth ei agor.

G. Angen ail-osod arwydd 'Give Way' wrth groesffordd y ffordd o Saron lawr am Hafodty Goch/Rhiwlas Uchaf.

H. Glamp o dwll yn y ffordd wrth giât Pen y Caeau Mawr a cheir yn dreifio ochr anghywir o'r ffordd i'w osgoi.

I. Mwy o dyllau dyfyn eto rhwng Tŷ Cerrig a Lon, Prion angen sylw.

17. MATERION BRYD O DAN ADGAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

Nid chodwyd unrhyw fater o frys.

18. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR - NOS LUN 28AIN O FAWRTH 2022 AM 7.30 O'R GLOCH TRWY MICROSOFT TEAMS.